

Caban Y Faenol CYF

Polisi Atal Plant rhag Crwydro/Plentyn Coll

Nod

Nod Caban Y Faenol yw sicrhau bod plant yn aros o fewn yr adeilad a'r amgylchedd heb y posibilrwydd iddynt grwydro o'r safle. Dylai Caban Y Faenol sicrhau bod gweithdrefnau cadarn yn eu lle a bod yr holl staff yn gwybod sut i ymateb pan fydd plentyn yn crwydro o'r safle.

Am fanylion y camau i'w dilyn os bydd plentyn yn mynd ar goll o'r safle, cyfeiriwch at y **Polisi Cludo Plant**.

Egwyddorion

Mae cadw plant yn ddiogel ym mhob sefyllfa yn rhan bwysig o barchu eu hawliau (fel y nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn). Yn benodol:

- Erthygl 3: Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio tuag at yr hyn sydd
- Erthygl 19: Dylai llywodraethau sicrhau bod plant yn cael gofal priodol, a'u hamddiffyn rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod gan eu rhieni neu unrhyw un arall sy'n gofalu amdanynt
- Erthygl 23: Dylai plant sydd ag unrhyw fath o anabledd gael gofal a chymorth arbennig fel y gallant fyw bywydau llawn ac annibynnol
- Erthygl 31: Mae gan bob plentyn yr hawl i ymlacio a chwarae, ac i ymuno mewn ystod eang o weithgareddau.

Cod Ymarfer

Bydd Caban y Faenol yn:

- cynnal asesiad risg cynhwysfawr.
- sicrhau na all plant agor na chau drysau ar eu pen eu hunain – dylai dolenni neu folltau fod allan o gyrraedd y plant. Dylai unrhyw ddrysau sy'n arwain oddi ar y safle aros ar gau bob amser.
- sicrhau bod y ffenestri'n ddiogel ac na all plant eu hagor. Dylid gosod handlen ddiogelwch ar unrhyw ffenestri agored.
- sicrhau bod unrhyw faes chwarae awyr agored yn ddiogel ac na all plant agor unrhyw ddrws/giât.
- archwilio'r ystafell/adeilad cyn pob sesiwn i sicrhau bod y safle'n ddiogel, e.e. sicrhau bod allanfeydd brys yn cael eu cau'n iawn, ac nad oes unrhyw ffenestri lefel isel ar agor.

Caban Y Faenol CYF

- sicrhau bod y Rheolwr neu'r person â gofal wedi sefydlu gorchymyn lle mae aelodau penodol o staff yn gyfrifol am gofrestru plant wrth iddynt gyrraedd.
- sicrhau bod y Rheolwr neu'r person â gofal wedi sefydlu gorchymyn lle mae aelodau penodedig o staff yn gyfrifol am gofrestru plant wrth iddynt adael y lleoliad yng ngofal oedolyn sy'n gyfrifol amdanynt.

Camau i'w cymryd os canfyddir bod plentyn ar goll o'r lleoliad:

- Gwiriwch y gofrestr i sicrhau y dylai'r plentyn fod yn bresennol o hyd ac nad oes neb wedi casglu'r plentyn eisoes.
- Gofynnwch i'r holl staff gadarnhau nad yw rhiant/gofalwr/gwarcheidwad wedi casglu'r plentyn yn barod.
- Gwnewch chwiliad manwl yn y lleoliad, y tu mewn a'r tu allan.
- Gofynnwch i'r plant eraill mewn modd sensitif er mwyn darganfod a ydynt wedi gweld y plentyn dan sylw yn gadael yr adeilad.
- Sicrhau bod y plant eraill yn cael eu goruchwylio'n effeithlon tra bod y chwiliad yn cael ei wneud.

Os na chaiff y plentyn ei ddarganfod o hyd, cymerwch y camau canlynol ar unwaith:

- • cysylltu â'r heddlu
- • cysylltu â'r rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid
- • cysylltu ag AGC

Yn dilyn y digwyddiad dylai'r Rheolwr baratoi adroddiad ysgrifenedig am y digwyddiad ac adolygu'r asesiad risg.

Camau i'w cymryd os bydd plentyn yn mynd ar goll o'r lleoliad:

Cyfeiriwch at y Polisi Cludo Plant.

Polisïau Cysylltiedig

Polisi Cludo Plant